

# CYRSIAU CYFRIFEG A CHYLLID PROFFESIYNOL

Medi 2022 - Awst 2023  
Ysgol Fusnes De Cymru

[WWW.SOUTHWALES.AC.UK/ACCOUNTING](http://WWW.SOUTHWALES.AC.UK/ACCOUNTING)

# PAM ASTUDIO CYMHWYSTER CYFRIFEG PROFFESIYNOL YM MHRIFYSGOL DE CYMRU?

Mae gan Brifysgol De Cymru hanes cyfoethog o ddarparu hyfforddiant o'r radd flaenaf ar gyfer cymwysterau cyfrifyddu proffesiynol ACA ac ACCA ac fel arfer rydym yn addysgu 250-300 o fyfyrwyr cyfrifeg proffesiynol bob blwyddyn. Mae gennym dros 48 mlynedd o brofiad yn addysgu ACCA a lansiwyd ein cwrs ACA yn 2012, gan weithio'n agos gydag ICAEW. Ym mis Medi 2018 hefyd lansiwyd ein MSc Cyfrifeg Broffesiynol arloesol (gyda hyfforddiant ACCA). Rydym yn falch iawn o fod wedi cael ein rhoi yn yr 20 uchaf yn y DU am ein Cyrsiau Cyfrifeg a Chyllid yn Nhablau Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2022, ac i fod â thiwrtor sydd wedi ennill gwobr 'Darlithydd y Flwyddyn' yng Ngwobrau Cylchgrawn PQ 2021.

## Tim dysgu profiadol a phenodol

Mae ein tim dysgu cyrsiau proffesiynol yn cynnwys naw cyfrifydd cymwysedig ac un cyfreithiwr cymwysedig sydd ag arfer cyfrifyddu sylweddol a phrofiad o'r diwydiant. Mae aelodau'r tim wedi gweithio i ddarparu dysgu yn y sector preifat, mae ganddynt lawer iawn o brofiad o addysgu myfyrwyr sut i basio arholiadau proffesiynol, cyflwyno sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus i'r cyrff proffesiynol lleol a chymryd rhan mewn hyfforddiant pwrpasol ar gyfer sefydliadau mawr. Mae ein tim yn mynychu Cynadleddau Darlithwyr y corff proffesiynol yn rheolaidd.

## Achrediad ansawdd

Rydym yn Bartner mewn Dysgu ICAEW ac yn Bartner Dysgu Cymeradwy Platinwm ACCA, i gydnabod ein cyfraddau pasio rhagorol a'n cymorth bugeiliol i fyfyrwyr.

## Wedi ennill gwobrau

Cawsom ein henwi gan Gylchgrawn PQ yn 'Coleg Cyfrifeg Sector Cyhoeddus y Flwyddyn' yn 2010, 2012 a 2016 ac fe'n rhoddwyd ar y rhestr fer eto ar gyfer y wobr yn 2021. **Enillodd ein Harweinydd Cwrs ICAEW hefyd 'Darlithydd y Flwyddyn' yng Ngwobrau PQ 2021.** At hynny, mae gennym fyfyrwyr sydd wedi ennill gwobrau. **Mae myfyrwyr ACCA PDC wedi ennill gwobrau byd-eang mewn papurau Lefel Broffesiynol Strategol mewn tri grŵp o arholiadau yn ddiweddar - Mehefin 2019, Medi 2020 a Mehefin 2021!**

## Hyfforddiant mewn lleoliad allweddol yn ne Cymru

Mae ein Canolfan Dysgu Proffesiynol wedi'i lleoli ar ein campws o'r radd flaenaf ar lannau afon Wysg yng nghanol dinas Casnewydd. Wedi'i agor yn 2011, mae gan Gampws Dinas Casnewydd ystafelloedd addysgu rhagorol, llyfrgelloedd a chyfleusterau arlwyio i fyfyrwyr. Mae'r campws yn hawdd ei gyrraedd o bob rhan o dde Cymru a siroedd y gorau (ger gorsaf drenau Casnewydd a Chyffyrdd 27 a Chyffordd 28 yr M4) ac mae yno ddigon o leoedd parcio diogel ar garreg y drws. Addysgir ein cyrsiau ACCA, ICAEW ac MSc Cyfrifeg Broffesiynol (gyda hyfforddiant ACCA) ar y Campws hwn.

## Adnoddau astudio a chyflogwyr

Darperir testunau astudio ac adnoddau eraill gan gynnwys profion cynnydd a ffug arholiadau\* i'n myfyrwyr fel rhan o'r ffi dysgu. Mae adroddiadau perfformiad myfyrwyr ar gyfer cyflogwyr sy'n nodi ar gael ar gais. Mae ein hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth, ymarfer cwestiynau a segmentau adolygu, ac rydym yn codi un ffi gyffredinol fesul modiwl ar gyfer yr holl elfennau hyn heb unrhyw gostau cudd nac angen prynu pethau ychwanegol.

## Perthynas â chyrff proffesiynol

Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r cyrff proffesiynol, yn lleol ac yn genedlaethol. Er enghraifft, ein Rheolwr Academiaidd yw Llywydd Pwyllgor De Cymru ICAEW 2022-23, rydym wedi bod yn brif noddwr Cynhadledd Genedlaethol ACCA Cymru a Brecwast Busnes Dydd Gŵyl Dewi am nifer o flynyddoedd, rydym yn cynnal darlithoedd datblygiad proffesiynol parhaus ac mae'r cyrff proffesiynol yn nodi gwobrau myfyrwyr yn rheolaidd.

## Cyrsiau arloesol

Gall myfyrwyr sy'n astudio modiwlau Lefel Gwybodaeth a Sgiliau Cymhwysol ACCA ar Gampws Dinas Casnewydd ddewis rhwng sefyll arholiadau ACCA allanol neu aseiniadau ac arholiadau prifysgol mewnol o dan gynllun arloesol a asesir yn fewnol. Mae'r cynllun mewnol, sy'n arwain at eithriadau ACCA fesul modiwl wrth i fodiwlau'r Brifysgol gael eu pasio, yn caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy a werthfawrogir gan gyflogwyr. **Mae cyrsiau adolygu ACCA ac ICAEW hefyd ar gael.**

Mae ein MSc Cyfrifeg Broffesiynol (gyda hyfforddiant ACCA) yn caniatáu i fyfyrwyr gyfuno astudiaethau Proffesiynol Strategol MSc ac ACCA mewn modd arloesol ac effeithlon.

\* Nid yw ffug arholiadau yn berthnasol i bapurau ACCA a asesir yn fewnol







“

**MAE ASTUDIO'R CWRS ACCA WEDI RHOI'R  
HYDER I MI DYFU A DATBLYGU FEL  
GWEITHIWR PROFFESIYNOL. RWYF  
BELLACH YN GWEITHIO I GWMNI SYDD WEDI  
EHANGU'N GYFLYM, GAN GANIATÁU I MI  
DDEFNYDDIO'R WYBODAETH A GAFWYD  
AR Y CWRS ACCA A'I CHYMHWYSO I  
SENARIOS BYWYD GO IAWN.**

**Tom Burns**  
un o raddedigion ACCA

## **DYSGU CYFUNOL - CYRSIAU CYFRIFEG BROFFESIYNOL**

Ar ôl codi holl gyfyngiadau COVID, rydym yn bwriadu parhau â model dysgu cyfunol ar gyfer ein cyrsiau cyfrifyddu proffesiynol yn 22/23 (yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol).

Bydd ein model dysgu cyfunol yn dal i gynnig dosbarthiadau wyneb yn wyneb i fyfyrwyr yn y rhan fwyaf o wythnosau dysgu a bydd myfyrwyr nad ydynt yn gallu mynychu'r rhain yn bersonol yn gallu dod i'r sesiynau yn rhithwir. Yn yr wythnosau sydd wedi'u hamserlennu sy'n weddill, bydd sesiynau'n cael eu cyflwyno mewn ystafelloedd dosbarth ar-lein byw, a gallant hefyd gynnwys rhai elfennau a recordiwyd ymlaen llaw. Bydd ein model dysgu cyfunol yn rhoi hyblygrwydd i fyfyrwyr gael gafael ar adnoddau ar adeg sy'n iawn iddyn nhw, yn unol â'u hanghenion, eu harddulliau dysgu a'u dewisiadau.

|                                                                                                     |                                      |  |                    |                      |                        |                                                                         |                                   |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------|--|--------------------|----------------------|------------------------|-------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------|
| Cynllun a asesir yn fewnol (Cyfrifeg Broffesiynol DipHE) ar gael. Gweler Nodyn 1 ar y dudalen nesaf | Modiwl ACCA                          |  | Bore<br>9.30am–1pm | Prynhawn<br>1.30–5pm | Gyda’r Nos<br>5.30–9pm | Diwrnod dysgu a dyddiadau blociau dysgu                                 | Cyswllt academaidd                |
|                                                                                                     | Gwybodaeth Gymhwysol:                |  |                    |                      |                        | Dydd Mawrth:<br><br>13 Medi - 15 Tach 2022<br>24 Ion - 16 Mai 2023      | claudia.scicluna@southwales.ac.uk |
|                                                                                                     | Busnes a Thechnoleg (BT)             |  |                    |                      | Medi                   |                                                                         |                                   |
|                                                                                                     | Cyfrifeg Reoli (MA)                  |  |                    | Medi                 |                        |                                                                         |                                   |
|                                                                                                     | Cyfrifyddu Ariannol (FA)             |  |                    | Ion                  |                        |                                                                         |                                   |
|                                                                                                     | Sgiliau Cymhwysol:                   |  |                    |                      |                        |                                                                         | nicola.gilbert@southwales.ac.uk   |
|                                                                                                     | Cyfraith Gorfforaethol a Busnes (LW) |  |                    | Medi                 | Ion**                  |                                                                         |                                   |
|                                                                                                     | Rheoli Perfformiad (PM)              |  |                    | Ion**                | Medi                   |                                                                         |                                   |
|                                                                                                     | Trethiant (TX)                       |  |                    | Ion                  | Medi                   |                                                                         |                                   |
|                                                                                                     | Adroddiadau Ariannol (FR)            |  |                    | Medi                 | Ion                    |                                                                         |                                   |
|                                                                                                     | Archwilio a Sicrwydd (AA)            |  |                    | Ion                  | Medi                   |                                                                         |                                   |
|                                                                                                     | Rheolaeth Ariannol (FM)              |  |                    | Medi                 | Ion                    |                                                                         |                                   |
| Astudiaethau cyfunol gyda MSc Cyfrifeg Broffesiynol ar gael. Gweler Nodyn 2 (tudalen nesaf)         | Gweithiwr Proffesiynol Strategol:    |  |                    |                      |                        |                                                                         | nicola.gilbert@southwales.ac.uk   |
|                                                                                                     | Arweinydd Busnes Strategol (SBL)     |  |                    | Medi*                |                        | Dydd Iau: 15 Medi - 1 Rhag 2022; 26 Ion – 25 Mai 2023                   |                                   |
|                                                                                                     |                                      |  | Ion*               |                      |                        |                                                                         |                                   |
|                                                                                                     | Adrodd Busnes Strategol (SBR)        |  |                    | Ion                  | Medi                   | Dydd Mercher:<br>14 Medi – w/c 28 Tach 2022<br>11 Ion - w/c 29 Mai 2023 |                                   |
|                                                                                                     | Mwy o Opsiynau:                      |  |                    |                      |                        |                                                                         |                                   |
|                                                                                                     | Rheolaeth Ariannol Uwch (AFM)        |  |                    | Ion                  |                        |                                                                         |                                   |
|                                                                                                     | Rheoli Perfformiad Uwch (APM)        |  |                    |                      | Ion                    |                                                                         |                                   |
|                                                                                                     | Trethiant Uwch (ATX)                 |  | Medi*              | Ion                  |                        |                                                                         |                                   |
|                                                                                                     | Archwiliad a Sicrwydd Uwch (AAA)     |  | Ion                | Medi*                |                        |                                                                         |                                   |

Mae cyrsiau sy'n dechrau ym mis Medi (wedi'u marcio 'Medi' uchod) yn rhedeg rhwng Medi a Tachwedd 2022 ac yn paratoui myfyrwyr ar gyfer arholiadau Rhagfyr 2022.

Mae cyrsiau sy'n dechrau ym mis Ionawr (wedi'u marcio 'Ion' uchod) yn rhedeg rhwng Ionawr a Mai 2023 ac yn paratoui myfyrwyr ar gyfer arholiadau Mehefin 2023. Mae gwyliau Pasg tair wythnos am y 3 wythnos sy'n dechrau ar 27 Mawrth 2023.

Mae modiwlau Sgiliau Cymhwysol a Gwybodaeth Gymhwysol mis Medi hefyd yn cynnwys 2 ddiwrnod astudio ychwanegol fesul modiwl y tu allan i'r amserlen arferol uchod, a fydd yn rhedeg rhwng 9.30am a 4.30pm.

Mae modiwlau Opsiynau Proffesiynol/Uwch Strategol mis Medi hefyd yn cynnwys 3 diwrnod astudio ychwanegol fesul modiwl y tu allan i'r amserlen arferol (ac eithrio SBL, sydd ag un diwrnod ychwanegol).

\*Mae'r cyrsiau sydd wedi'u marcio â seren yn amodol ar ddigon o alw gan fyfyrwyr.

\*\*Bydd dosbarthiadau dwys ychwanegol o PM ac LW ar gael yn Ionawr-Chwefror a Mawrth-Mai 2023 (diwrnodau cyfan yr wythnos), yn amodol ar y galw gan fyfyrwyr.

# Yn gyffredinol, mae modiwlau naill ai'n rhedeg mewn slotiau 9.30am-1pm, 1.30pm-5pm neu 5.30pm-9pm. Yr eithriad i hyn yw'r cwrs Arweinydd Busnes Strategol, sy'n rhedeg mewn slotiau hirach (Medi: 1.30pm-9pm; Ionawr: 9.30am-5pm).

Mae Prifysgol De Cymru yn Bartner Dysgu Cymeradwy Platinwm ACCA, y lefel uchaf o achrediad. Mae hyn yn golygu bod ein cyfraddau pasio yn gyson uwch na chyfartaleddau byd-eang. I wneud cais am ein cyrsiau cyfrifyddu proffesiynol ac ôl-raddedig, ewch i [www.southwales.ac.uk/apply](http://www.southwales.ac.uk/apply)

#### CYRSIAU ADOLYGU LEFEL BROFFESIYNOL STRATEGOL ACCA HEFYD AR GAEL

Ar gyfer modiwlau dethol arholiadau Rhagfyr 2022 a Mehefin 2023, £125 fesul modiwl.

Cysylltwch â [nicola.gilbert@southwales.ac.uk](mailto:nicola.gilbert@southwales.ac.uk) i gael rhagor o fanylion.

Ar gyfer arholiadau mis Rhagfyr 2022: SBR, SBL, ATX, AAA: Cynhelir cyrsiau ym mis Tachwedd 2022.

Ar gyfer arholiadau Mehefin 2023: SBR, SBL, ATX, AAA, AFM, APM: Cynhelir cyrsiau ym mis Mai 2023.

## NODIADAU DILYNIANT ACCA

Gall myfyriwr sydd angen pob modiwl ACCA gwblhau'r cymhwyster mewn tua phedair blynedd gan astudio'n rhan-amser. Rydym yn argymhell uchafswm o ddau fodiwl fesul cyfnod arholiad wrth astudio'n rhan-amser.

Rydym yn cynnig hyfforddiant ar gyfer pob modiwl ACCA yn rhan-amser ac yn cynnig hyfforddiant ar gyfer sgiliau cymhwysol a modiwlau Lefel Broffesiynol Strategol yn llawn amser hefyd. Ar gyfer ein strwythur dysgu llawn amser, gweler ein llyfryn ACCA llawn amser ar wahân.

Rhaid sefyll arholiadau yn nhrefn Lefel ACCA (gweler isod), ond gellir cymryd modiwlau o fewn pob Lefel mewn unrhyw drefn.

**Lefel Gwybodaeth Gymhwysol (BT, MA, FA)**

**Lefel Sgiliau Cymhwysol (LW, PM, TX, FR, AA, FM)**

**Lefel Broffesiynol Strategol (SBL, SBR a dau o AFM, APM, ATX ac AAA)**

Rhaid rhoi cynnig ar yr arholiadau sy'n weddill mewn Lefel gyfredol os yw myfyriwr yn dymuno sefyll arholiadau yn y Lefel nesaf. Dylai myfyrwyr gwblhau'r modiwl Moeseg a Sgiliau Proffesiynol ar-lein cyn iddynt ddechrau ar y Lefel Broffesiynol Strategol. Dylai myfyrwyr edrych ar amserlen arholiadau ACCA cyn cychwyn ar fodiwlau. Yn benodol, dylid astudio Archwilio a Sicrwydd Uwch ar ôl Adrodd Busnes Strategol a dylid osgoi'r cyfuniadau modiwl canlynol: Arweinydd Busnes Strategol gyda Threth / Treth Uwch, Y Gyfraith gyda Rheolaeth Ariannol / Rheolaeth Ariannol Uwch.

### Nodyn 1 - Diploma Addysg Uwch (Cyfrifyddu Proffesiynol)

Gall myfyrwyr sy'n astudio'r Lefelau Gwybodaeth Gymhwysol a Sgiliau Cymhwysol ddewis rhwng sefyll arholiadau ACCA allanol neu aseiniadau ac arholiadau prifysgol mewnol. Dyfernir Diploma Addysg Uwch (Cyfrifeg Broffesiynol) prifysgol i'r rhai sy'n cael digon o gredydau mewnol fel rhan o'u hastudiaethau ACCA. Mae'r cynllun mewnol yn arwain at eithriadau ACCA ar sail modiwlau fesul modiwl wrth i fodiwlau'r Brifysgol gael eu pasio.

### Nodyn 2 – MSc Cyfrifeg Broffesiynol (gyda hyfforddiant ACCA)

Gall myfyrwyr ddewis astudio ein MSc Cyfrifeg Broffesiynol ochr yn ochr â modiwlau Lefel Broffesiynol Strategol ACCA yn rhan-amser neu'n llawn amser. Mae hwn yn llwybr arloesol sy'n caniatáu i fyfyrwyr gael MSc a'u harholiadau Proffesiynol Strategol ar yr un pryd. Mae maes llafur yr MSc wedi'i fapio i fodiwlau ACCA. Mae myfyrwyr MSc yn eistedd yn y dosbarthiadau ACCA a nodwyd ar y dudalen flaenorol ond yn derbyn gweithdai Meistr ychwanegol i ddatblygu sgiliau Meistr academiaidd allweddol a werthfawrogi gan gyflogwyr. Mae aseiniadau ac arholiadau MSc mewnol yn cael eu sefyll cyn sefyll pob arholiad Proffesiynol Strategol ACCA allanol. Gweler tudalen 7 am ragor o fanylion.

**Byddai llwybr astudio MSc rhan-amser nodweddiadol yn cynnwys:**

Blwyddyn 1: SBR Medi-Rhag; Modiwl opsiwn Ionawr-Mehefin

Blwyddyn 2: SBL Medi-Rhag; Modiwl opsiwn Ionawr-Mehefin; Prosiect Dulliau Ymchwil ac Ymchwil Busnes Mehefin-Medi 2022/2023

## 2022/2023 FFOEDD DYSGU ACCA

Lefel Gwybodaeth Gymhwysol (BT, MA, FA); £560 fesul modiwl

Lefel Sgiliau Cymhwysol (LW, PM, TX, FR, AA, FM); £990 fesul modiwl

Lefel Broffesiynol Strategol; £1,700 ar gyfer Arweinydd Busnes Strategol, a £1,300 fesul modiwl ar gyfer pob modiwl arall (SBR, AFM, APM, ATX ac AAA)

Mae ein hyfforddiant yn cynnwys yr holl elfennau allweddol sydd eu hangen arnoch, am un pris fesul modiwl - nid oes unrhyw gostau cudd na phryniadau dysgu ychwanegol. Rydym yn rhannu'r wybodaeth ofynnol (cynnwys y maes llafur), yn eich cynnwys mewn ymarfer cwestiynau AC yn cynnal sesiynau adolygu yn agos at amser arholiad. Mae profion cynnydd wedi'u cynnwys ar gyfer pob modiwl; mae ffug arholiadau wedi'u cynnwys ar gyfer modiwlau a arholir yn allanol. Mae ein ffioedd dysgu hefyd yn cynnwys cost testun astudio a phrecyn ymarfer cwestiynau, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ffioedd sy'n daladwy'n uniongyrchol i ACCA. Sylwch hefyd fod y ffioedd dysgu a ddyfynnir uchod yn ymwneud â hyfforddiant Cyfrifeg Broffesiynol ACCA a/neu Dip AU yn unig. Codir un set o ffioedd MSc ar fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y cwrs MSc Cyfrifeg Broffesiynol (gyda hyfforddiant ACCA) sy'n cwmpasu'r holl hyfforddiant sydd ei angen. Gweler tudalen 7 am ragor o fanylion. Mae'r ffioedd a ddyfynnir uchod ar gyfer myfyrwyr cartref a rhyngwladol rhan-amser. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd myfyrwyr sy'n daladwy i ACCA (gan gynnwys aelodaeth myfyrwyr, eithriadau a ffioedd arholiadau), ewch i: [www.accaglobal.com](http://www.accaglobal.com).

## @ ARDDULL CYFLWYNO DYSGU

Ar ôl codi holl gyfyngiadau COVID, rydym yn bwriadu parhau â model dysgu cyfunol ar gyfer y cwrs ACCA (yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol). Bydd ein model dysgu cyfunol yn dal i gynnig dosbarthiadau wyneb yn wyneb i fyfyrwyr yn y rhan fwyaf o wythnosau dysgu a bydd myfyrwyr nad ydynt yn gallu mynychu'r rhain yn bersonol yn gallu cael gafael arnynt yn rhithwir. Yn yr wythnosau sydd wedi'u hamserlennu sy'n weddill, bydd sesiynau'n cael eu cyflwyno mewn ystafelloedd dosbarth ar-lein byw, a gallant hefyd gynnwys rhai elfennau a recordiwyd ymlaen llaw. Bydd ein model dysgu cyfunol yn rhoi hyblygrwydd i fyfyrwyr gael gafael ar adnoddau ar adeg sy'n iawn iddyn nhw, yn unol â'u hanghenion, eu harddulliau dysgu a'u dewisiadau.



# ICAEW: CYMHWYSTER CFAB AC ACA



Lleoliad: Campws Casnewydd

Cyflwyno'r Cwrs: Cymysgedd o yn yr ystafell Ddosbarth ac ar-lein. Prynhawn/Gyda'r Nos a Bloc (CFAB); Diwrnod Astudio Rhan-amser gydag Adolygu Bloc (ACA Lefelau Proffesiynol ac Uwch)

Mae'r amseroedd dysgu isod yn ddangosol a gallant newid yn ôl yr amgylchiadau.

## LEFEL TYSTYSGRIF (TYSTYSGRIF MEWN CYLLID, CYFRIFEG A BUSNES, NEU 'CFAB'):

CFAB yw'r cymhwyster mynediad ar gyfer ACA. Gall myfyrwyr gael eithriadau o bob un o'r chwe modiwl CFAB drwy astudio ein Cert AU (Cyfrifeg Broffesiynol) arloesol, a asesir yn fewnol. O dan y cynllun hwn mae myfyrwyr yn astudio modiwlau fel a ganlyn:

**Medi-Rhag:** Busnes a Thechnoleg (BT) a Chyfrifyddu Rheoli (MA) (Dydd Mawrth 1.30pm-9pm; hyfforddiant yn dechrau 13 Medi 2022)

**Rhag-Ion:** Egwyddorion Trethiant (PoT) (hyd at 3 diwrnod/wythnos am 2 wythnos; hyfforddiant yn dechrau w/c 12 Rhag 2022)

**Ion-Mehefin:** Cyfrifeg Ariannol (FA) a Chyfraith Gorfforaethol a Busnes (LW) (Dydd Mawrth 1.30pm-9pm; hyfforddiant yn dechrau 24 Ionawr 2023)

**Mehefin:** Sicrwydd (UG) (hyd at 3 diwrnod/wythnos am 2 wythnos; hyfforddiant yn dechrau w/c 12 Mehefin 2023)

Cyfanswm cost dysgu cymhwyster CFAB = £3,650 (dadansoddiad fesul modiwl ar gael ar gais)

Cysylltwch â [rebecca.wright@southwales.ac.uk](mailto:rebecca.wright@southwales.ac.uk) am ragor o wybodaeth

## CYMHWYSTER ACA:

### Blwyddyn Un (Lefel Broffesiynol)\*

Medi-Rhagfyr: Cyfrifeg Ariannol a Strategaeth Adrodd a Busnes a Thechnoleg | Ionawr-Mawrth: | Cydymffurfio Trethiant

Mawrth-Mehefin: Trethiant Cynllunio Busnes

### Blwyddyn Dau (Lefelau Proffesiynol ac Uwch)\*

Medi-Rhagfyr: Rheolaeth Ariannol, ac Archwilio a Sicrwydd (Lefel Broffesiynol) | Ionawr-Gorffennaf: Lefel Uwch

| Lefel              | Modiwl                                                                                           | Hyfforddiant                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         | Cyswllt academiaidd                                                                  | Ffioedd Dysgu*                                                 |
|--------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------|
| Lefel Broffesiynol | Cyfrifeg Ariannol ac Adrodd Strategaeth Busnes a Thechnoleg Rheoli Ariannol Archwilio a Sicrwydd | Mae'r addysgu'n dechrau dydd Llun 12 Medi 2022. Addysgir pob modiwl am ddiwrnodau cyfan (9.30am-5pm) bob yn ail wythnos am 10 wythnos. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 1 bydd myfyrwyr yn astudio Cyfrifeg Ariannol ac Adrodd ar un dydd Llun a Strategaeth Busnes a Thechnoleg y dydd Llun canlynol. Mae gan bob modiwl hefyd floc adolygu deuddydd ar ddiwedd yr hyfforddiant. Arholiadau Rhagfyr 2022. | <a href="mailto:rebecca.wright@southwales.ac.uk">rebecca.wright@southwales.ac.uk</a> | £990 y modiwl                                                  |
|                    | Cydymffurfiaeth Trethiant                                                                        | Mae'r addysgu'n dechrau dydd Llun 9 Ionawr 2023, 9.30am-5pm. Addysgir Cydymffurfiaeth Trethiant (TC) am 6 wythnos. Ynghyd â bloc adolygu deuddydd yn w/c 20 Chwefror. Arholiad TC ym mis Mawrth 2023.                                                                                                                                                                                                |                                                                                      |                                                                |
|                    | Trethiant Cynllunio Busnes                                                                       | Mae'r addysgu'n dechrau dydd Llun 13 Mawrth 2023, 9.30am-5pm. Addysgir Trethiant Cynllunio Busnes (BPT) am 6 wythnos. Ynghyd â bloc adolygu tri diwrnod yn w/c 22 Mai. Arholiad BPT ym mis Mehefin 2023.                                                                                                                                                                                             |                                                                                      |                                                                |
| Lefel Uwch         | Modiwlau Integreiddio Technegol (CR, SBM) ac Astudiaeth Achos                                    | Mae'r addysgu'n dechrau dydd Llun 9 Ionawr 2023, 9.30am-5pm. Mae hyfforddiant Rheoli Busnes Strategol ac Adrodd Corfforaethol yn rhedeg rhwng Ionawr a Mehefin 2023; Cynhelir hyfforddiant Astudiaethau Achos yn ystod gwanwyn / haf 2023. Arholiadau Gorffennaf 2023.                                                                                                                               |                                                                                      | Technical Integration modules £1,300 each<br>Case Study £1,550 |

Mae cyrsiau adolygu hefyd ar gael ar gyfer arholiadau mis Rhagfyr, Mawrth a Mehefin (modiwlau lefel proffesiynol ac uwch dethol), £150 fesul modiwl. Cysylltwch â: [rebecca.wright@southwales.ac.uk](mailto:rebecca.wright@southwales.ac.uk)

@ Dull Cyflawni: Ar ôl codi holl gyfyngiadau COVID, rydym yn bwriadu parhau â model dysgu cyfunol ar gyfer y cwrs ICAEW (yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol). Bydd ein model dysgu cyfunol yn dal i gynnig dosbarthiadau wyneb yn wyneb i fyfyrwyr yn y rhan fwyaf o wythnosau dysgu a bydd myfyrwyr nad ydynt yn gallu mynychu'r rhain yn bersonol yn gallu cael gafael ar y sesiynau yn rhithwir. Yn yr wythnosau sydd wedi'u hamserlennu sy'n weddill, bydd sesiynau'n cael eu cyflwyno mewn ystafelloedd dosbarth ar-lein byw, a gallant hefyd gynnwys rhai elfennau a recordiwyd ymlaen llaw. Bydd ein model dysgu cyfunol yn rhoi hyblygrwydd i fyfyrwyr gael gafael ar adnoddau ar adeg sy'n iawn iddyn nhw, yn unol â'u hanghenion, eu harddulliau dysgu a'u dewisiadau.

\* Ymhlith y ffioedd dysgu mae cost deunyddiau astudio ICAEW, profion cynnydd a ffug arholiadau, ond nid ydynt yn cynnwys unrhyw ffioedd sy'n daladwy'n uniongyrchol i gorff proffesiynol ICAEW. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd myfyrwyr sy'n daladwy i ICAEW (gan gynnwys aelodaeth myfyrwyr, eithrio a ffioedd mynediad i arholiadau), ewch i [www.icaew.com](http://www.icaew.com). Mae ffioedd 2022/23 a ddyfynnir uchod ar gyfer myfyrwyr cartref a rhyngwladol rhan-amser.

# MSC CYFRIFEG BROFFESIYNOL (GYDA HYFFORDDIANT ACCA)

Lleoliad: Campws Casnewydd (llawn amser a rhan amser)

Mae'r amseroedd dysgu isod yn ddangosol a gallant newid yn ôl yr amgylchiadau.

Mae ein cwrs MSc Cyfrifeg Broffesiynol arloesol (gyda hyfforddiant ACCA) yn cyfuno astudiaeth academiaidd uwch â chymhwyster Cyfrifeg broffesiynol.

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at fyfyrwyr sydd wedi cwblhau modiwlau Gwybodaeth a Sgiliau Cymhwysol Cymhwyster Proffesiynol ACCA (BT - FM), neu'r rhai sydd wedi'u heithrio o'r modiwlau ACCA hyn gan eu bod yn astudio gradd Cyfrifeg, wedi'i chynabod a'i hachredu gan ACCA.

Wedi'i addysgu gan diwtoriaid arobryn o'n rhaglen ACCA achrededig Platinwm, mae modiwlau ar y cwrs Meistr Cyfrifyddu hwn yn cyd-fynd â Lefel Broffesiynol Strategol derfynol Cymhwyster Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA). Mae myfyrwyr yn cael eu paratoi i sefyll pedwar arholiad Proffesiynol Strategol ACCA allanol yn fuan ar ôl cwblhau asesiadau Meistr mewnol. Mae'r cwrs felly'n cynnig cyfundrefn astudio sy'n effeithlon iawn o ran cost ac amser, gydag astudiaeth Meistr broffesiynol ac academiaidd yn digwydd ar yr un pryd. Ar y cwrs llawn amser gall myfyrwyr ennill cymhwyster Meistr a sefyll pob arholiad ACCA mewn blwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn, cysylltwch â Rhian Gosling, Arweinydd y Cwrs ar: [rhian.gosling@southwales.ac.uk](mailto:rhian.gosling@southwales.ac.uk)

| Modiwl MSc a modiwl ACCA                               | Credydau        | Amseriadau                | Patrwm Cyflenwi                                                                                                                                                                                                                                          | Dyddiadau Allweddol 22/23                                                                                                                                               |
|--------------------------------------------------------|-----------------|---------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Llawn amser 2022/23</b>                             |                 |                           |                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                         |
| Adroddiadau Busnes Strategol (SBR)                     | 40              | Medi i Ragfyr 2022        | 80 awr o hyfforddiant. Fel arfer 5.5 awr yr wythnos ynghyd â diwrnodau astudio cyfan ychwanegol.                                                                                                                                                         | Cyflwyniad i'r radd Meistr ac addysgu cyntaf Dydd Mercher 14 Medi 2022; arholiad MSc mewnol w/c 21 Tach 2022; Arholiad SBR ACCA allanol w/c 5 Rhag 2022 (l'w gadarnhau) |
| Arweinydd Busnes Strategol (SBL)                       | 40              | Hydref 2022 i Fawrth 2023 | 91 awr o hyfforddiant: 7 awr yr wythnos ar draws 13 wythnos (6 wythnos cyn y Nadolig; 7 wythnos ar ôl y Nadolig).                                                                                                                                        | Hyfforddiant yn dechrau w/c 17 Hyd 2022; MSc arholiad mewnol w/c 20 Chwef 2023; Arholiad ACCA allanol w/c 6 Mawrth 2023 (l'w gadarnhau)                                 |
| Modiwlau Opsiwn Uwch (AFM, APM, ATX, AAA)              | 40 fesul modiwl | Ionawr i Fehefin 2023     | 80 awr o hyfforddiant fesul modiwl (mae myfyrwyr yn astudio 2 fodiwl o 4). Fel arfer 3.5 awr / wythnos ynghyd â diwrnodau tiwtorial Meistr ychwanegol.                                                                                                   | Hyfforddiant yn dechrau 11 Ionawr 2023; MSc arholiadau mewnol w/c 22 Mai 2023; Arholiadau ACCA allanol w/c 5 Mehefin 2023 (l'w gadarnhau)                               |
| Prosiect Ymchwil Busnes                                | 20              | Mehefin i Medi 2023       | Sesiynau methodoleg ymchwil Mehefin 2023, ynghyd â chymorth prosiect unigol.                                                                                                                                                                             | Hyfforddiant Methodoleg Ymchwil - Mehefin 2023. Cyflwyniad Prosiect Ymchwil Busnes - diwedd Medi 2023                                                                   |
| <b>Rhan-amser 2022/23</b>                              |                 |                           |                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                         |
| Adrodd Busnes Strategol NEU Arweinydd Busnes Strategol | 40 fesul modiwl | Medi i Ragfyr 2022        | SBR - prynhawniau a nosweithiau Mercher. 5.5 awr yr wythnos ynghyd â diwrnodau astudio cyfan ychwanegol. SBL - Dydd Iau (1.30pm-9pm)                                                                                                                     | Mae'r hyfforddiant yn dechrau 14 Medi 2022 (SBR) neu 15 Medi (SBL); arholiadau MSc mewnol w/c 21 Tach 2022; Arholiadau ACCA allanol w/c 5 Rhag 2022 (l'w gadarnhau)     |
| Modiwl Opsiwn Uwch (dewis o ATX, AAA, AFM, APM)        | 40 fesul modiwl | Ionawr i Fehefin 2023     | Dydd Mercher:<br>ATX: 1.30-5pm gweithdy ACCA;<br>AAA: 9.30-1pm Gweithdy ACCA;<br>AFM: 1.30-5pm Gweithdy ACCA;<br>APM: 5.30-9pm Gweithdy ACCA.<br><br><i>Sylwch y bydd tiwtorialau MSc ychwanegol (cyfanswm o 20 awr/modiwl) hefyd yn cael eu trefnu.</i> | Hyfforddiant yn dechrau dydd Mercher 11 Ionawr 2023; MSc arholiadau mewnol w/c 22 Mai 2023; Arholiadau ACCA allanol w/c 5 Mehefin 2023 (l'w gadarnhau)                  |

I gael ffioedd dysgu cyfredol a gwybodaeth am fwrsariaethau PDC a benthyciadau myfyrwyr ôl-raddedig, ewch i [www.southwales.ac.uk/study/fees-and-funding/postgraduate-fees-and-funding/](http://www.southwales.ac.uk/study/fees-and-funding/postgraduate-fees-and-funding/).

Mae ffioedd dysgu yn cynnwys cost gwerslyfrau, ond nid ydynt yn cynnwys unrhyw ffioedd sy'n daladwy i gorff proffesiynol ACCA. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd sy'n daladwy i ACCA (gan gynnwys aelodaeth myfyrwyr, eithriadau a ffioedd arholiadau), ewch i: [www.accaglobal.com](http://www.accaglobal.com)

# Noder mai cyfrifoldeb myfyrwyr yw sefyll arholiadau ACCA allanol. Ewch i [www.accaglobal.com](http://www.accaglobal.com) i gael rhagor o fanylion.

[www.southwales.ac.uk/accounting](http://www.southwales.ac.uk/accounting) | 03455 760 599

# CYRSIAU

## Campws Casnewydd

- Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA)
- CFAB ac ACA – Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW)
- MSc Cyfrifeg Broffesiynol (gyda hyfforddiant ACCA)

## Campws Pontypridd

- BA (Anrh) Cyfrifeg a Chyllid
- BSc (Anrh) Bancio, Cyllid a Buddsoddi (Atodol)
- BA (Anrh) Cyfrifeg Fforensig
- MSc Cyllid a Buddsoddi
- MSc Archwilio a Chyfrifyddu Fforensig

**Ffoniwch: 03455 760 599 (DU)**

**Ffoniwch: +44 (0)1443 654 450 (Tramor)**

**Ewch i: [www.southwales.ac.uk/accounting](http://www.southwales.ac.uk/accounting)**

Mae'r canllaw hwn yn darparu canllawiau cyffredinol ac nid yw'n rhan o unrhyw gontract. Mae'r wybodaeth a roddwyd wedi'i chynhyrchu ymhell cyn cyflwyno'r cyrsiau a amlinellwyd ar gyfer myfyrwyr sydd i fod i ymuno â'r Brifysgol yn ystod derbyniad 2022/23. Er y credir ei fod yn gywir ar adeg mynd i'r wasg, dylid gwirio ein gwefan am y sefyllfa ddiweddaraf. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddiwygio neu derfynu cyrsiau, neu newid cyfleusterau, fel ymateb i amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth ond fel arall bydd yn ymdrechgu i ymateb i newid drwy ymgynghori â'r rhai yr effeithir arnynt a/neu gymryd camau adferol i'w helpu.

Fel rhan o'i hymrwymiad i'r Gymraeg, mae'r Brifysgol yn darparu gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [www.decymru.ac.uk](http://www.decymru.ac.uk) or e-mail [cymraeg@decymru.ac.uk](mailto:cymraeg@decymru.ac.uk)

As part of its commitment to the Welsh language, the University provides information through the medium of Welsh. To find out more, visit [www.decymru.ac.uk](http://www.decymru.ac.uk) or e-mail [cymraeg@decymru.ac.uk](mailto:cymraeg@decymru.ac.uk)

Cynhyrchwyd gan adran Marchnata a Recriwtio Myfyrwyr Prifysgol De Cymru.

Dylunio: Argraffu a Dylunio PDC 01443 482 677

Mae Prifysgol De Cymru yn elusen gofrestredig.  
Rhif Cofrestru 1140312.

